



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 503 (Cy.44)

2008 No. 503 (W.44)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT
WALES**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol
(Dangosyddion Perfformiad
Gwerth Gorau) (Cymru) 2008**

**The Local Government (Best Value
Performance Indicators) (Wales)
Order 2008**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu dangosyddion perfformiad, ar gyfer Cymru, y cyfeirir atynt wrth fesur perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (fel awdurdodau gwerth gorau), wrth arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2008. Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005.

This Order specifies, for Wales, performance indicators by reference to which the performance of county councils and county borough councils (as best value authorities), in exercising their functions, will be measured from 1 April 2008. The Order revokes the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2005.

Drwy gyfeirio at yr Atodlenni, mae erthygl 2 yn nodi pa ddangosyddion perfformiad a gaiff eu defnyddio i fesur perfformiad pa swyddogaethau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol perthnasol fel awdurdodau gwerth gorau.

Article 2 identifies, by reference to the Schedules, which performance indicators will be used to measure performance of which functions for the respective county councils and county borough councils as best value authorities.

Mae Atodlenni 1 i 8 yn manylu ar y dangosyddion rhagnodedig ar gyfer y gwahanol swyddogaethau fel a ganlyn:

Schedules 1 to 8 detail the prescribed indicators for different functions as follows:

Atodlen 1 - Gwasanaethau Cymdeithasol

Schedule 1 - Social Services

Atodlen 2 - Tai

Schedule 2 - Housing

Atodlen 3 - Addysg

Schedule 3 - Education

Atodlen 4 - Rheoli gwastraff

Schedule 4 - Waste Management

Atodlen 5 - Trafnidiaeth/Priffyrdd

Schedule 5 - Transport/Highways

Atodlen 6 - Diogelu'r Cyhoedd

Schedule 6 - Public Protection

Atodlen 7 - Effeithlonrwydd Ynni

Schedule 7 - Energy Efficiency

Atodlen 8 - Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor.

Schedule 8 - Housing Benefit and Council Tax Benefit.

2008 Rhif 503 (Cy.44)

2008 No. 503 (W.44)

**LLYWODRAETH LEOL
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT
WALES**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol
(Dangosyddion Perfformiad
Gwerth Gorau) (Cymru) 2008**

**The Local Government (Best Value
Performance Indicators) (Wales)
Order 2008**

Gwnaed 23 Chwefror 2008

Made 23 February 2008

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 26 Chwefror 2008

*Laid before the National
Assembly for Wales* 26 February 2008

Yn dod i rym 1 Ebrill 2008

Coming into force 1 April 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 4(1)(a) a (2) ac adran 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(1) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(2), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy o dan adran 4(3) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by section 4(1)(a) and (2) and section 29(1) of the Local Government Act 1999(1) and now vested in them(2), and having consulted those persons which they are required, by section 4(3) of that Act, to consult, hereby make the following Order.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau sy'n gynghorau sir neu'n gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn unig ac mae'n effeithiol o ran y flwyddyn ariannol 2008-2009 a blynyddoedd ariannol dilynol.

Dangosyddion Perfformiad

2. Pennir y dangosyddion perfformiad o ran y swyddogaethau a nodir yn y tabl isod.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008 and this Order comes into force on 1 April 2008.

(2) This Order applies only to best value authorities which are county or county borough councils in Wales and has effect in relation to the financial year 2008-2009 and subsequent financial years.

Performance Indicators

2. The performance indicators are specified in relation to the functions identified in the table below.

(1) 1999 p.27.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p. 32).

(1) 1999 c.27.

(2) These functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Y TABL

Swyddogaethau'r Awdurdodau Gwerth Gorau a'r Dangosyddion Perfformiad y mesurir perfformiad y swyddogaethau hynny drwyddynt
Gwasanaethau Cymdeithasol
Pob dangosydd yn Atodlen 1
Tai
Pob dangosydd yn Atodlen 2
Addysg
Pob dangosydd yn Atodlen 3
Rheoli gwastraff
Pob dangosydd yn Atodlen 4
Trafnidiaeth/Priffyrdd
Pob dangosydd yn Atodlen 5
Diogelu'r Cyhoedd
Pob dangosydd yn Atodlen 6
Effeithlonrwydd Ynni
Pob dangosydd yn Atodlen 7
Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor
Pob dangosydd yn Atodlen 8

TABLE

Best Value Authority Functions and Performance Indicators by which performance of those functions will be measured
Social Services
All indicators in Schedule 1
Housing
All indicators in Schedule 2
Education
All indicators in Schedule 3
Waste Management
All indicators in Schedule 4
Transport/Highways
All indicators in Schedule 5
Public Protection
All indicators in Schedule 6
Energy Efficiency
All indicators in Schedule 7
Housing Benefit and Council Tax Benefit
All indicators in Schedule 8

Dirymu

3. Dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005(1).

Revocation

3. The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2005 is revoked(1).

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

23 Chwefror 2008

23 February 2008

(1) O.S. 2005/665 (Cy.55).

(1) S.I. 2005/665 (W.55).

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Erthygl 2

Article 2

DANGOSYDDION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

SOCIAL SERVICES INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
NS1	Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd.	The rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1,000 population aged 75 or over.
NS2	<p>Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd):</p> <p>(a) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth; a</p> <p>(b) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth.</p>	<p>The rate of older people (aged 65 or over):</p> <p>(a) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31 March; and</p> <p>(b) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March.</p>
NS3	<p>(a) canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda Chynllun Gofal ar waith; a</p> <p>(b) ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal yr oedd eu hail adolygiad (a oedd i fod ar ôl 4 mis) i fod wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn, y ganran gyda chynllun ar gyfer sefydlogrwydd adeg y dyddiad priodol.</p>	<p>(a) the percentage of first placements of looked after children during the year that began with a Care Plan in place; and</p> <p>(b) for those children looked after whose second review (due at 4 months) was due in the year, the percentage with a plan for permanence at the due date.</p>
NS4	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.	The percentage of children looked after at 31 March who have experienced one or more change of school, during a period or periods of being looked after, which were not due to transitional arrangements, in the 12 months to 31 March.

ATODLEN 2
 SCHEDULE 2
 DANGOSYDDION TAI
 HOUSING INDICATORS

Rhif y Dangosydd/ Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
NS5	<p>(a) Nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi defnyddio llety gwely a brecwast yn ystod y flwyddyn, ac eithrio mewn argyfyngau; a</p> <p>(b) Cyfartaledd nifer y diwrnodau y mae pob teulu digartref gyda phlant wedi eu treulio mewn llety gwely a brecwast.</p>	<p>(a) The number of homeless families with children who have used bed and breakfast accommodation during the year, except in emergencies; and</p> <p>(b) The average number of days all homeless families with children spent in bed and breakfast accommodation.</p>
NS6	Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith rhwng cyflwyno person fel person digartref i'r awdurdod a chyflawni dyletswydd yr awdurdod at aelwydydd a geir yn statudol ddigartref.	The average number of working days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutorily homeless.
NS7	<p>Cyfartaledd nifer yr unedau cymorth sy'n ymwneud â thai fesul 1000 o'r boblogaeth, ar gyfer pob un o'r mathau canlynol o wasanaeth cymorth sy'n ymwneud â thai:</p> <p>(i) cymorth fel y bo'r angen;</p> <p>(ii) mynediad uniongyrchol;</p> <p>(iii) llety dros dro;</p> <p>(iv) llety parhaol;</p> <p>(v) llety gwarchod i bobl hyn; a</p> <p>(vi) gwasanaethau larwm cymunedol.</p>	<p>The average number of units of housing-related support per 1000 population, for each of the following types of housing related support service:</p> <p>(i) floating support;</p> <p>(ii) direct access;</p> <p>(iii) temporary accommodation;</p> <p>(iv) permanent accommodation;</p> <p>(v) sheltered accommodation for older people; and</p> <p>(vi) community alarm services.</p>

ATODLEN 3

SCHEDULE 3

DANGOSYDDION ADDYSG

EDUCATION INDICATORS

Rhif y Dangosydd /Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
NS8	<p>Canran presenoldeb disgyblion mewn:</p> <p>(a) ysgolion cynradd; a</p> <p>(b) ysgolion uwchradd.</p>	<p>Percentage of pupil attendance in:</p> <p>(a) primary schools; and</p> <p>(b) secondary schools.</p>
NS9	<p>Canran:</p> <p>(i) yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheini sydd yng ngofal awdurdod lleol); a</p> <p>(ii) y disgyblion sydd yng ngofal awdurdod lleol,</p> <p>sydd mewn yn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac yn gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd.</p>	<p>The percentage of:</p> <p>(i) all pupils (including those in local authority care); and</p> <p>(ii) pupils in local authority care,</p> <p>in any local authority maintained school aged 15 at the preceding 31 August and leave compulsory education, training or work-based learning without an approved external qualification.</p>
NS10	<p>Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Aseidiadau Athrawon.</p>	<p>The percentage of pupils, assessed at the end of Key Stage 2, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment.</p>
NS11	<p>Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel a benderfynir gan Aseidiadau Athrawon.</p>	<p>The percentage of pupils assessed at the end of Key Stage 3, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment.</p>
NS12	<p>Cyfarledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.</p>	<p>The average point score for pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority.</p>

NS13	<p>Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Aseiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf):</p> <p>(i) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2; a</p> <p>(ii) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.</p>	<p>The percentage of pupils assessed in schools maintained by the local authority, receiving a Teacher Assessment in Welsh (first language)</p> <p>(i) at the end of Key Stage 2; and</p> <p>(ii) at the end of Key Stage 3.</p>
------	---	--

ATODLEN 4

SCHEDULE 4

DANGOSYDDION RHEOLI GWASTRAFF

WASTE MANAGEMENT INDICATORS

Rhif y Dangosydd /Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
NS14	<p>Canran y gwastraff trefol:</p> <p>(i) a aildefnyddir ac/neu a ailgylchir; a</p> <p>(ii) a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall.</p>	<p>The percentage of municipal waste:</p> <p>(i) reused and/or recycled; and</p> <p>(ii) composted or treated biologically in another way.</p>
NS15	<p>Canran y gwastraff trefol pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi.</p>	<p>The percentage of bio-degradable municipal waste sent to landfill sites.</p>

ATODLEN 5

SCHEDULE 5

DANGOSYDDION CLUDIANT/PRIFFYRDD

TRANSPORT/HIGHWAYS INDICATORS

Rhif y dangosydd /Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
NS16	<p>Canran:</p> <p>(a) prif ffyrdd (dosbarth A); a</p> <p>(b) ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig</p> <p>sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol.</p>	<p>The percentage of:</p> <p>(a) principal (A) roads; and</p> <p>(b) non-principal/classified roads</p> <p>in overall poor condition.</p>

ATODLEN 6

SCHEDULE 6

DANGOSYDDION DIOGELU'R CYHOEDD

PUBLIC PROTECTION INDICATORS

Rhif y dangosydd/ Indicator number	Prif ddangosydd	Headline indicator
NS17	<p>Canran y busnesau uchel eu risg sy'n agored i gael arolygiadau wedi'u rhaglennu o ran:</p> <p>(i) Safonau Masnach; (ii) Hylendid Bwyd; (iii) Iechyd Anifeiliaid; a (iv) Iechyd a Diogelwch.</p>	<p>The percentage of high risk businesses liable to programmed inspections that were inspected as regards:</p> <p>(i) Trading Standards; (ii) Food Hygiene; (iii) Animal Health; and (iv) Health and Safety.</p>

ATODLEN 7

SCHEDULE 7

DANGOSYDDION EFFEITHLONRWYDD YNNI

ENERGY EFFICIENCY INDICATORS

Rhif y dangosydd /Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline Indicator
NS18	<p>(a) Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon diocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig;</p> <p>(b) —</p> <p>(i) Canran y gostyngiad yn y defnydd o ynni yn y stoc dai; a</p> <p>(ii) Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon diocsid yn y stoc dai.</p>	<p>(a) Percentage reduction in carbon dioxide emissions in the non-domestic public building stock;</p> <p>(b) —</p> <p>(i) Percentage reduction in energy use in the housing stock; and</p> <p>(ii) Percentage reduction in carbon dioxide emissions in the housing stock.</p>

ATODLEN 8

SCHEDULE 8

DANGOSYDDION Y BUDD-DALIADAU TAI A BUDD-DALIADAU'R DRETH GYNGOR

HOUSING BENEFIT AND COUNCIL TAX BENEFIT INDICATORS

Rhif y dangosydd /Indicator Number	Prif ddangosydd	Headline indicator
NS19	Yr amser a gymrwyd i brosesu hawliadau newydd a digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai (BT) a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor (BTG).	Time taken to process Housing Benefit (HB) and Council Tax Benefit (CTB) new claims and change events.
NS20	Nifer y newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar hawl cwsmeriaid i gael Budd-daliadau Tai (BT) neu Fudd-daliadau Treth Gyngor (BTG) yn ystod y flwyddyn.	The number of changes of circumstances which affect customers' entitlement to Housing Benefit (HB) or Council Tax Benefit (CTB) within the year.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2008 Rhif 503 (Cy.44)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Llywodraeth Leol
(Dangosyddion Perfformiad
Gwerth Gorau) (Cymru) 2008

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No. 503 (W.44)

**LOCAL GOVERNMENT
WALES**

The Local Government (Best Value
Performance Indicators) (Wales)
Order 2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W263/03/08

ON